# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell Anghyffredin, 2 Hydref, 2024

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, R. Fisher, C.P. Franks, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I.R. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy ac G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Y Cynghorwyr G.D.D. Carroll, C.P. Franks a B. Loveluck-Edwards datganodd fuddiant personol sef eu bod yn Llywodraethwyr ysgolion y Fro, ond nid oedd y materion a oedd gerbron y Pwyllgor yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn rhagfarnu gan fod yr adroddiadau yn rhai cyffredinol.

EITEM AGENDA 3. CAU CYFRIFON 2023/24 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID ystyried y cyfeiriad ar y cyd ag Eitem 4, Adroddiad y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, fel y nodir isod.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn gallu ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad gyda'i gilydd.

EITEM AGENDA 4. CAU CYFRIFON 2023/24 (CAC) –

ARGYMHELLWYD -

(1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor fel y nodir isod:

- £2m o drosglwyddiad i gronfa wrth gefn newydd i wrthbwyso diffygion ysgolion ar sail dros dro yn 2024/25;
- £80k i Gronfa'r Cyngor i wrthbwyso pwysau cyffredinol.

(3) BOD sylwadau'r Pwyllgor a wnaed yn y cyfarfod uchod yn cael eu cyfeirio at y Cabinet a bod y Cabinet yn ystyried y canlynol -

- Ystyried swyddog caffael penodedig ar gyfer ysgolion;
- Bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gyrff Llywodraethol gael cymorth ac arweiniad pellach mewn perthynas â diffygion yng nghyllideb ysgolion;
- Bod adroddiadau cau cyfrifon yn y dyfodol yn manylu ar ddefnydd arfaethedig a heb ei gynllunio o'r cronfeydd wrth gefn a bod yr adroddiadau hefyd yn nodi'r manylion ynghylch a oedd yr arian a glustnodwyd yn y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol ai peidio ar gyfer y pwysau a nodwyd.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. CAU CYFALAF CYFRIFON 2023/24 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – NODI argymhellion y Cabinet.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – DERBYN yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2023/24.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2024/25 (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2024/25 yr Awdurdod.

(2) NODI'r trosglwyddiadau a gynhwyswyd fel rhan o'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEHEFIN, 2024 (CAC) –

ARGYMHELLWYD -

(1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2024/25 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor yn Atodiad 1 sydd ynghlwm.

(2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) NODI'r defnydd o bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(4) Y DYLID nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2024/25 a Rhaglen Gyfalaf y blynyddoedd i ddod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 9. STRATEGAETH ARIANNOL 2025/26 i 2029/30 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried, yn enwedig o ran buddsoddi mewn prosiectau gwario i arbed ac yn ymwneud â swyddogaeth caffael strategol.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac ystyried cyfleoedd eraill i gynorthwyo.